# TRECHU CAM-FANTEISIO A THRYLOYWDER Y GADWYN GYFLENWI

# DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN

Blwyddyn Ariannol: 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus statudol a disgresiynol, a ddarperir yn uniongyrchol drwy ein gweithlu ein hunain, a thrwy dros 8,000 o sefydliadau preifat a thrydydd sector, ac mae wedi dogfen Llywodraeth Cymru **Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ers 2017**. Mae 12 ymrwymiad y Cod yn cynnwys mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl. Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi'u cymryd yn ystod y deuddeg mis diwethaf a chynlluniau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod, i sicrhau nad oes unrhyw Gaethwasiaeth Fodern na Masnachu Pobl yn ei fusnes ei hun nac mewn cadwyni cyflenwi.

Mae Cyngor Caerdydd yn gwbl ymrwymedig i amlygu ei Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern a sicrhau 'Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi'. I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth, nid yn unig drwy ei gydweithrediad Ardal newydd, ond gyda Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau, undebau llafur ac eraill i fynd i'r afael â heriau Caethwasiaeth Fodern a sbarduno gweithredu ar y cyd gyda'r nod o leihau risgiau ac achosion o gaethwasiaeth fodern.

Mae Ardal yn bartneriaeth gaffael newydd ag Awdurdodau Lleol yn Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Caerdydd, gyda gwariant blynyddol o fwy nag £1 biliwn. Mae Ardal wedi'i hadeiladu ar egwyddor gwasanaethau a rennir lle mae cyrff y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd tuag at nod a rennir.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cydnabod y rôl arwyddocaol y gall caffael ei chwarae wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar draws ein cymunedau a Chymru. Hefyd, bydd y Ddeddf Caffael (2023) yn gofyn am newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff arfer caffael y sector cyhoeddus ei reoli.

## Cynnwys


1. Diffinio Caethwasiaeth Fodern
2. Deddfwriaeth
3. Fframwaith Polisi
4. Ein Cadwyni Cyflenwi - Proffil Gwariant a Blaenoriaethu Risg
5. Hyfforddi Cyflogeion
6. Dyletswydd i Hysbysu
7. Cynnydd a Wnaed i Gynyddu Diwydrwydd Dyladwy Caethwasiaeth Fodern Ebrill 2022 – Mawrth 2023 (Yr Hyn Rydym wedi'i Wneud)
8. Ymateb i'r Risg o Gaethwasiaeth Fodern o fewn Cadwyni Cyflenwi'r Cyngor (Beth Fyddwn ni'n ei Wneud)
9. Deunyddiau Ategol ac Adnoddau eraill
10. Cymeradwyo Datganiad

Blwyddyn Ariannol: 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025



## 1. Diffinio Caethwasiaeth Fodern

Caethwasiaeth yw unrhyw system lle defnyddir egwyddorion cyfraith eiddo yng nghyswllt pobl, gan alluogi unigolion i fod yn berchen ar unigolion eraill, eu prynu a'u gwerthu. Mae dioddefwyr yn cael eu masnachu ledled y byd am ddim neu fawr ddim arian – gan gynnwys i'r DU ac yn y wlad ei hun.

Mae'r term 'Caethwasiaeth Fodern' yn cyfleu ystod gyfan o fathau o gam-fanteisio, gyda llawer ohonynt yn digwydd gyda'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Camfanteisio rhywiol: mae hyn yn cynnwys cam-drin rhywiol, puteindra gorfodol a cham-drin plant ar gyfer cynhyrchu delweddau/fideos o gam-drin plant.
- Gwasanaethfraint domestig: mae hyn yn golygu bod dioddefwyr yn cael eu gorfodi i weithio mewn cartrefi preifat fel arfer, yn gwneud dyletswyddau domestig a gofal plant.
- Llafur gorfodol: gall hyn ddigwydd mewn gwahanol ddiwydiannau, gan gynnwys adeiladu, gweithgynhyrchu, gosod tramwyfeydd, lletygarwch, pecynnu bwyd, amaethyddiaeth, morwrol a harddwch (bariau ewinedd).
- Camfanteisio troseddol: Gellir disgrifio hyn fel ecsbloetio person i gyflawni trosedd, megis dwyn o bocedi pobl, dwyn o siopau, tyfu canabis, masnachu cyffuriau (gan gynnwys 'Llinellau Cyffuriau') a gweithgareddau tebyg eraill sy'n destun cosbau ac yn awgrymu elw ariannol i'r masnachwr.
- Masnachu pobl: mae hyn yn golygu bod person yn trefnu neu'n hwyluso teithio person arall gyda'r bwriad o fanteisio ar y person hwnnw. Mae'r drosedd yn gallu cael ei chyflawni hyd yn oed pan fo'r dioddefwr yn cydsynio i'r teithio. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai dioddefwr gael ei dwyllo gan yr addewid o fywyd neu swydd well neu gall fod yn blentyn sy'n cael ei ddylanwadu gan oedolyn i deithio.
- Mathau eraill o gam-fanteisio: tynnu organau; cardota gorfodol; twyll budd-daliadau gorfodol; priodas dan orfod a mabwysiadu anghyfreithlon.

Yn 2023, cofnododd yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol 559 o ddioddefwyr posibl masnachu yng Nghymru, cynnydd o 536 yn 2022.

Nid oes unrhyw ddioddefwr nodweddiadol ac nid yw rhai dioddefwyr yn deall bod rhywun wedi cam-fanteisio arnynt a bod ganddynt hawl i gael cymorth a chefnogaeth. Mae dioddefwyr yn aml yn cael eu masnachu i wlad dramor lle nad ydynt yn gallu siarad yr iaith, ac mae eu dogfennau teithio ac adnabod yn cael eu tynnu oddi wrthynt a dywedir wrthynt, os byddant yn ceisio dianc, y byddan nhw neu eu teuluoedd yn cael eu niweidio.

Yn lleol ac ar draws y Deyrnas Unedig, mae Camfanteisio Troseddol yn gyffredinol, a masnachu mewn cyffuriau 'llinellau cyffuriau' yn arbennig, wedi dod yn ffordd amlwg o fanteisio fwyfwy ar bobl, yn enwedig plant. 'Llinellau sirol' yw'r arfer o fasnachu cyffuriau i ardaloedd gwledig a threfi a dinasoedd llai, i ffwrdd o'r prif gytrefi. Mae llawer o ffactorau'n cyfrannu at y ffordd y mae masnachwyr yn manteisio ar blant sy'n agored i niwed ac unigolion eraill ac mae'n ffactor allweddol na all plentyn byth gydsynio i'w gam-fanteisio ei hun. Cyflawnwyd gwelliant yn nifer yr atgyfeiriadau i ddarpar ddioddefwyr masnachu mewn pobl i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) yng Nghaerdydd oherwydd y cynnydd mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth a ddarparwyd i ymarferwyr.

Mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'i ddynodiad fel sefydliad 'Ymatebydd Cyntaf' o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a'i gyfrifoldeb i nodi dioddefwyr posibl ac atgyfeirio achosion at Awdurdod Cymwys Canolfan Masnachu Pobl y DU o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

Yn 2023, gwnaed 53 o atgyfeiriadau MAC gan staff y Cyngor a gynorthwyodd hefyd mewn llawer o atgyfeiriadau eraill drwy weithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau eraill gan gynnwys yr heddlu.

## 2. Deddfwriaeth

Nododd 2023 newid sylweddol mewn deddfwriaeth cadwyn gyflenwi atal caethwasiaeth ledled y byd, gyda phwyslais cryfach ar ofynion adrodd llymach ac atebolrwydd cyffredinol. Mae busnesau rhyngwladol bellach yn wynebu tirwedd gymhleth, gan jyglo rheoliadau amrywiol a sicrhau bod cydymffurfio ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan.

Mae llywio'r dirwedd hon yn gofyn am ddeall ein rhwymedigaethau, gweithredu'r gweithdrefnau adrodd cywir, a chryfhau ein dull o liniaru'r risg o gaethwasiaeth fodern.

Yn hanfodol, mae deddfwriaeth newydd yn galw am edrych y tu hwnt i'n cyflenwyr uniongyrchol. Mae'n ymestyn cyfrifoldeb i haenau is yn ein cadwyn gyflenwi, sy'n aml yn rhychwantu'r byd, er ein bod yn cydnabod bod yn rhaid i'n dull gweithredu barhau i fod yn gymesur. Hyd yn oed fel corff cyhoeddus yn y DU lle mae ein cyflenwyr yn rhai domestig yn bennaf, gallai eu cyrchu haen 1 ymestyn y tu hwnt i'r DU, gan wneud Cyngor Caerdydd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau hyn drwy gysylltiadau anuniongyrchol.

Rydym yn parhau i fod yn wybyddus o ddeddfwriaeth atal caethwasiaeth a chyfarwyddebau eraill a gyflwynwyd yn ddiweddar gan yr Undeb Ewropeaidd trwy'r Gyfarwyddeb Adrodd Cynaliadwyedd Corfforaethol (CSRD) ac o wledydd eraill gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Norwy, Japan, Canada, Awstralia a'r Unol Daleithiau.

(Er nad yw'r DU yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd (UE), bydd Cyfarwyddeb Adrodd Cynaliadwyedd Corfforaethol yr UE (2022/2464) yn effeithio ar rai cwmnïau corfforedig yn y DU. Mae'r Gyfarwyddeb, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2023, yn nodi datgeliadau ychwanegol i gwmnïau eu cynnwys yn eu hadroddiad blynyddol mewn cysylltiad â materion cynaliadwyedd.)

## 3. Fframwaith Polisi

Mae cynllun pum mlynedd Cyngor Caerdydd **Cryfach, Tecach, Gwyrddach** yn rhoi ymdrechion i leihau tlodi ac anghydraddoldeb wrth wraidd blaenoriaethau'r Weinyddiaeth. Mae'r Cyngor yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig, ac rydym yn annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Yn 2012 dechreuodd Cyngor Caerdydd dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl staff; yn 2015, daeth yn sefydliad Cyflog Byw achrededig, ac yn 2019 chwaraeodd rôl allweddol mewn llwyddiant Caerdydd i ennill statws Dinas Cyflog Byw. Yn ôl ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), roedd 42,000 (20.7%) o swyddi yng Nghaerdydd yn talu o dan y Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2017 ac erbyn 2021 roedd hyn wedi gostwng i 24,000 (11.6%) o swyddi.

Erbyn hyn mae gan y ddinas 220 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig sy'n cyflogi tua 78,000 o bobl, gyda thua 13,300 ohonynt wedi derbyn codiad cyflog i'r Cyflog Byw gwirioneddol. Mae Prifysgol Caerdydd yn amcangyfrif bod £75 miliwn ychwanegol wedi mynd i economi Caerdydd ers 2012 o ganlyniad i dâl gweithwyr godi i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ers 2012.

Mae **Polisi Diogelu Corfforaethol** cyffredinol y Cyngor (sy'n ymgorffori'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern) yn gosod dyletswydd ac ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i risg er mwyn sicrhau bod arferion effeithiol ar waith ar draws y Cyngor a'i wasanaethau sydd wedi'u comisiynu. Mae'r polisi yn ymdrin â holl swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor ac mae'n berthnasol i holl weithwyr y Cyngor, aelodau etholedig, gofalwyr maeth, unigolion sy'n ymgymryd â lleoliadau gwaith a gwirfoddolwyr sy'n gweithio o fewn y Cyngor.

Mae strategaeth newydd sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn defnyddio ei bŵer prynu i gefnogi ymrwymiad yr awdurdod at les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn y ddinas wedi cael ei lansio.

Blwyddyn Ariannol: 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025



Mae **Strategaeth Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol 2022-27** yn nodi'r rôl allweddol y bydd caffael yn parhau i'w chyflawni wrth alluogi'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth Cryfach, Tecach, Gwyrddach, drwy sicrhau bod ei wariant yn cael yr effaith gymdeithasol fwyaf posibl, cyflymu'r symudiad i sero net ac arwain y ffordd fel cyflogwr 'Gwaith Teg'.

Mae hon yn strategaeth gorfforaethol, a bydd ei chyflwyno yn gofyn am ymrwymiad a chefnogaeth gan bob Cyfarwyddiaeth a'u staff. Mae'n nodi'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i barhau i wella'r ffordd y mae'n rheoli ei weithgaredd caffael i gefnogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn ac mae'n cynnwys saith Blaenoriaeth Caffael allweddol fel:

- Cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030.
- Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector.
- Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu a fabwysiedir gan gyflenwyr.
- Cynyddu'r buddion cymunedol a'r gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr.

Mae'r Cyngor eisiau gweithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ei werthoedd a bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Blaenoriaethau Caffael y Cyngor.

Mae pwyslais a phrif bolisïau eraill y Cyngor yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cyflawni a chydymffurfio â **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**, sy'n darparu fframwaith i hyrwyddo lles pobl Cymru drwy wella datblygu cynaliadwy (gan gynnwys trwy wella gwasanaethau cyhoeddus) trwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

- Parhau i gyflawni **Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** gyda phwyslais ar ddileu Caethwasiaeth Fodern, fel bod Cyngor Caerdydd yn chwarae rhan flaenllaw wrth wneud Cymru'n elyniaethus tuag at gaethwasiaeth fodern  Mae **Polisi Diogelu ar gyfer Contractwyr** y Cyngor yn darparu canllawiau i Gontractwyr fel eu bod yn deall eu rôl wrth gefnogi'r Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio.

- Mae **Polisi Chwythu'r Chwiban** yn galluogi staff y Cyngor a chyflogeion contractwyr / cyflenwyr y Cyngor i adrodd am arferion cyflogi anfoesegol i'r Cyngor.

- Mae'r **Cod Ymddygiad Cyflogeion** yn ei gwneud yn glir i gyflogeion beth yw'r camau gweithredu a'r ymddygiad a ddisgwylir ohonynt wrth gynrychioli'r Cyngor. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae'n rhaid iddyn nhw weithredu gydag uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd. Mae'r sefydliad yn ymdrechu i gynnal y safonau uchaf o ran  ymddygiad cyflogeion ac ymddygiad moesegol yn ei holl weithrediadau ac wrth reoli ein cadwyn gyflenwi.

- **Polisi recriwtio** - nod y Cyngor bob amser yw recriwtio'r unigolyn sy'n fwyaf addas i'r swydd. Mae gan y Cyngor brosesau recriwtio cadarn, sy'n cynnwys gwirio dogfennau er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gweithio yn y DU.

- **Gweithwyr asiantaeth** – Mae'r Cyngor yn cyflogi pob gweithiwr asiantaeth a staff dros dro naill ai drwy Gaerdydd ar Waith neu drwy Matrix SCM sy'n ddarparwr gwasanaeth a reolir y mae ei Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern yn nodi dull dim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth fodern.

## 4. Ein Cadwyni Cyflenwi - Proffil Gwariant a Blaenoriaethu Risg

Mae'r Cyngor yn gwario tua £600 miliwn bob blwyddyn yn caffael ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 8,000 o gyflenwyr a chontractwyr, tra bod partneriaeth gaffael Ardal ag Awdurdodau Lleol yn Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg a reolir gan Gyngor Caerdydd, yn gyfrifol am wariant blynyddol cyfunol o fwy nag £1 biliwn. Yn ogystal â sicrhau gwerth sylweddol am arian cyhoeddus o ran y gwaith, nwyddau a gwasanaethau hyn, mae pwysigrwydd cynyddol i sicrhau bod caffael yn cefnogi materion allweddol fel datgarboneiddio, gwaith teg, sicrhau manteision cymunedol a sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosib i fusnesau a chymunedau lleol, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Mae'r sectorau risg uchel o ran Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys amaethyddiaeth, hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, dillad, adeiladu, gofal cymdeithasol a gweithgynhyrchu. Mae adolygiad o wariant y Cyngor wedi dangos bod y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth yn fewnol ar gyfer mwyafrif y meysydd risg uchel, gan ddefnyddio fframweithiau cenedlaethol a/neu gyflenwyr lleol. Ystyrir bod y risg o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl gan ein cyflenwyr uniongyrchol yn isel.

Drwy'r broses dendro, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ein cyflenwyr uniongyrchol yn ymwybodol o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a'u bod hefyd yn deall eu rhwymedigaethau fel cyflenwyr neu gontractwyr y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cyflawni diwydrwydd dyladwy wrth ystyried derbyn cyflenwyr newydd a bydd yn ceisio adolygu ei gyflenwyr presennol bob blwyddyn drwy ei drefniadau rheoli contractau. Mae'r diwydrwydd dyladwy a'r adolygiadau yn cynnwys:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofyniad Adran 54 (Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) ynghylch Datganiad Caethwasiaeth Fodern ac, fel rhan o werthuso tendrau a rheoli contractau'n barhaus, ystyried potensial a thebygolrwydd caethwasiaeth fodern; ceisio mesurau lliniaru gan y cyflenwr drwy ddealltwriaeth glir o strwythur, cadwyni busnes a chyflenwi a pholisïau'r cyflenwyr mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl.

- Cynnal asesiadau o gyflenwyr i greu proffil risg sy'n canolbwyntio ar sefydlogrwydd ariannol ac sydd hefyd yn cwmpasu yswiriant a chydymffurfiaeth â pholisïau cyflogaeth amrywiol gan gynnwys dogfen Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

- Cymryd camau i wella arferion cyflenwyr israddol, gan gynnwys cynnig cyngor i gyflenwyr a'i gwneud yn ofynnol iddynt roi Cynlluniau Gweithredu ar waith; er enghraifft, dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau recriwtio diogelach.

- Cymryd rhan mewn mentrau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol a pholisïau caffael cymdeithasol-gyfrifol yn gyffredinol a chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn benodol.

- Cosbi cyflenwyr sy'n methu bodloni ein disgwyliadau neu wella eu perfformiad yn unol â Chynllun Gweithredu, sy'n cynnwys darpariaeth i derfynu'r berthynas fusnes.

Gyda phob gwahoddiad i dendro am fusnes gyda Chyngor Caerdydd dros £1 filiwn, disgwylir y dylai'r cyflenwr fod yn un o lofnodwyr Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac mae'r cwestiwn yn cael ei ofyn yn uniongyrchol mewn holiaduron cyn gymhwyso (HCG). Anogir hyn hefyd ym mhob tendr arall.

## 5. Hyfforddi Cyflogeion

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddatblygu a darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer ein gweithwyr, gan gynnwys y Tîm Comisiynu a Chaffael, er mwyn codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol a chosbrestru. Bydd hyfforddiant corfforaethol yn cael ei gynnwys fel rhan o'r rhaglen dreigl o hyfforddiant ar Reolau Archebion Sefydlog Cytundebol a Chaffael.

Mae modiwl cyffredinol **Modiwl Hyfforddiant Corfforaethol Ar-lein ar Godi Ymwybyddiaeth o Ddiogelu Plant ac Oedolion** eisoes yn bodoli, ac mae'n cynnwys materion yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern a disgwylir i holl gyflogeion y Cyngor ei gwblhau. Y gyfradd gwblhau bresennol (Mawrth 2023) yw 84%. Mae ystod o opsiynau hyfforddi yn cael ei dreialu ar gyfer staff nad ydynt yn staff desg.

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu hyfforddiant Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth a'r broses atgyfeirio i'r Awdurdod Cymwys Sengl ei hun, gan gynnwys gwybodaeth am y cynllun treialu gwneud penderfyniadau datganoledig yn achosion plant.
**Datganoli rhaglen dreialu gwneud penderfyniadau plant: canllawiau cyffredinol - GOV.UK (www.gov.uk)**

Mae'r broses hon yng Nghaerdydd bellach yn cyd-fynd â darpariaeth weithredol a fframwaith strategol ehangach Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE). Mae gan Wasanaethau Plant Caerdydd Bartneriaeth a Gwasanaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) sy'n goruchwylio ei waith sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio, Plant Coll a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) ar gyfer Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern.

Mae adnoddau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio gan sefydliadau partner, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir.

Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern ac yn amlygu'r dudalen we **https://www.gov.uk/government/publications/modern-slavery-training-resource-page/modern-slavery-training-resource-page** i'n holl weithwyr.

Mae'r Hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern yn ymdrin â'r canlynol:

- Arferion prynu'r Cyngor, sy'n dylanwadu ar amodau'r gadwyn gyflenwi ac a ddylai, felly, gael eu dylunio i atal pryniannau am brisiau afrealistig o isel, defnyddio llafur sy'n gysylltiedig â chyflogau afrealistig o isel neu gyflogau sy'n is nag isafswm cyflog cenedlaethol y wlad, neu ddarparu cynhyrchion erbyn terfyn amser afrealistig.

- Sut i asesu'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl mewn perthynas ag agweddau amrywiol eraill ar y busnes, gan gynnwys adnoddau a'r cymorth sydd ar gael.

- Sut i nodi arwyddion caethwasiaeth a masnachu pobl a'r camau i'w dilyn o ran rhoi gwybod am bryderon a/neu amheuon.

  Y camau cychwynnol i'w dilyn os amheuir bod caethwasiaeth neu fasnachu pobl yn digwydd.

  Sut i uwchgyfeirio materion posibl ynghylch caethwasiaeth neu fasnachu pobl at bartïon perthnasol yn y Cyngor (Hyb Diogelu Amlasiantaethol).

  Y cymorth allanol sydd ar gael, gan gynnwys y Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern, yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA) a gorfodi'r farchnad lafur - GOV.UK (www.gov.uk).

- Y negeseuon, y cymhellion busnes neu'r canllawiau y gellir eu rhoi i gyflenwyr a phartneriaid busnes a chontractwyr eraill i roi polisïau atal caethwasiaeth ar waith.

- Y camau y dylai'r Cyngor eu cymryd os nad yw cyflenwyr neu gontractwyr yn gweithredu polisïau atal caethwasiaeth mewn senarios risg uchel neu i weithredu newidiadau mewn arferion busnes sy'n deillio o Gynllun Gweithredu, gan gynnwys terfynu'r berthynas fusnes.

## 6. Dyletswydd i Hysbysu

Mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw unigolyn y deuir ar ei draws yng Nghymru a Lloegr y credant ei fod efallai yn dioddef o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl. Mae'r ddarpariaeth 'dyletswydd i hysbysu' wedi'i nodi yn Adran 52, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ac mae'n berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnwys Cyngor Caerdydd.

Darperir canllawiau ar y ddyletswydd i hysbysu yn:
[https://www.gov.uk/government/publications/duty-to-notify-the-home-office-of-potential-victims-of-modern-slavery](https://www.gov.uk/government/publications/duty-to-notify-the-home-office-of-potential-victims-of-modern-slavery)

Mae'r gofyniad hwn ynglŷn â dioddefwyr posibl Caethwasiaeth Fodern ynghlwm wrth gyfrifoldebau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel y nodir yn y Polisi Diogelu Corfforaethol pan fydd gan aelodau o staff, fel cyflogeion yr awdurdod lleol, ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn sy'n agored i risg.

| | |
|---|---|
| Ar gyfer pryderon am blant cysylltwch â | **029 2053 6490** |
| Ar gyfer pryderon am oedolion cysylltwch â | **029 2033 8439** |
| Y tu allan i oriau ac ar benwythnosau, cysylltwch â | **029 2078 8570** (Tîm Dyletswydd Brys) |
| Fel arall, cysylltwch â llinell gymorth Caethwasiaeth Fodern | **08000 121 700** |

**Os ystyrir bod unigolyn mewn perygl o niwed sylweddol ar unwaith, ffoniwch '999'.**

Mae ffeithlenni a phoster ar gael sy'n esbonio beth mae angen i chi ei wneud os ydych chi'n credu bod rhywun wedi dioddef o Gaethwasiaeth Fodern:


Poster Caethwasiaeth Fodern – Dyletswydd i Hysbysu
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/560813/6.2286_HO_LL_Duty_of_notice_poster_2_v2.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/560813/6.2286_HO_LL_Duty_of_notice_poster_2_v2.pdf)

Ffeithlen Caethwasiaeth Fodern – Dyletswydd i Hysbysu
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/560826/6.2286_HO_LL_factsheet_duty_to_notify_copy_V3.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/560826/6.2286_HO_LL_factsheet_duty_to_notify_copy_V3.pdf)

Mae'r ddau i'w gweld yn:
[Caethwasiaeth fodern: dyletswydd i hysbysu - GOV.UK (www.gov.uk)](https://www.gov.uk)



## 7. Cynnydd a Wnaed i Gynyddu Diwydrwydd Dyladwy Caethwasiaeth Fodern Ebrill 2023 – Mawrth 2024 (Yr Hyn Rydym wedi'i Wneud)




- Dod yn un o lofnodwyr Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: **Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.**.
- Penodi Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol - y Cynghorydd Chris Weaver.
- Mae'r Cynghorydd Chris Weaver yn parhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cod Ymarfer.
- Parhau â'r broses o adolygu ein cadwyni cyflenwi i nodi meysydd risg uchel.
- **Datblygu Strategaeth Gaffael Cymdeithasol-Gyfrifol 2022-27** newydd.
- Mewn partneriaeth â chyflenwyr a sefydliadau eraill i ennill statws Dinas Cyflog Byw i Gaerdydd gyda mwy na 220 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig bellach yn cyflogi tua 78,000 o bobl y mae tua 13,300 ohonynt wedi derbyn codiad cyflog i'r safon Cyflog Byw gwirioneddol.
- Cefnogi Hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern sy'n cael ei ddarparu ar draws y Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaethau plant sydd wedi elwa o hyfforddiant pwrpasol Camfanteisio'n Droseddol ar Blant gan Barnardos.
- Monitro ac adolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n cynnwys nifer staff y Cyngor sydd wedi cwblhau'r modiwl hyfforddi ar-lein (4860 ar hyn o bryd – i fyny o 4069 y llynedd).
- Gwelwyd gwelliant yn nifer yr atgyfeiriadau i ddioddefwyr posibl masnachu pobl i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC), a gyflawnwyd oherwydd y cynnydd mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth a ddarparwyd i ymarferwyr. Yn 2023, gwnaeth staff Cyngor Caerdydd 53 o atgyfeiriadau, gostyngiad bach o'i gymharu â 58 yn 2022.
- Parhau i gefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Cod Ymarfer a rhannu arfer gorau mewn amgylchiadau perthnasol.
- Parhau i adolygu dogfennaeth dendro'r Cyngor a chefnogi Rheolwyr Categori er mwyn sicrhau yr eir i'r afael yn llawn â materion Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl sy'n cynnwys cymalau i:

  (i) wirio bod gan gontractwyr sydd â throsiant o fwy na £36 miliwn Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern.

  (ii) Cynnwys y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn rhan o'n dogfennau tendro.

- Parhau i adolygu Telerau ac Amodau safonol y Cyngor i sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael:

  (i) Cynnal adolygiad pellach o'r cwestiwn ESPD/SQUiD a osodwyd i'w ddefnyddio mewn holiaduron cyn-gymhwyso ac ati
  (ii) Adolygu contractau cyflenwyr.
  (iii) Wedi sicrhau nad oes pwysau amser na chost ormodol a allai arwain at drin staff mewn modd anfoesegol.
  (iv) Wedi ymgorffori ymagwedd dim goddefgarwch at Gaethwasiaeth Fodern.

- Yn unol â'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, lluniwyd Strategaeth Gyfathrebu Caethwasiaeth Fodern i sicrhau y codir ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid drwy ddarparu posteri perthnasol a deunydd arall sydd wedi'u darparu drwy fewnrwyd a gwefan y Cyngor.

- Rydym yn parhau i gefnogi Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i lunio a chyhoeddi eu Datganiadau Caethwasiaeth Fodern cyntaf (2023/24) fel rhan o'n hymrwymiad i gydweithrediad Ardal.

- Rydym yn parhau i rannu arfer gorau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac astudiaethau achos perthnasol gyda Rheolwyr Categori a Chyfarwyddiaethau eraill, gyda gwaith yn mynd rhagddo i archwilio sut orau i liniaru risg yn ein cadwyni cyflenwi o ran gofal cymdeithasol oedolion a phrosesau caffael solar ffotofoltäig.

- Rydym wedi cefnogi ymgyrchoedd fel Diwrnod Atal Caethwasiaeth i dynnu sylw at ymrwymiad y Cyngor i'r agenda caethwasiaeth fodern.

- Cyflwyno hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar y safle i gyflenwyr amlwg yn y diwydiant adeiladu (ISG Ltd – datblygiad Ysgol Uwchradd Cantonian Hydref 2023).

- Mynychu digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' i ymgysylltu ymhellach â chyflenwyr i helpu yn eu prosesau caffael cynaliadwy a moesegol.

## 8. Ymateb i'r Risg o Gaethwasiaeth Fodern o fewn Cadwyni Cyflenwi'r Cyngor Ebrill 2024 - Mawrth 2025 (Beth Fyddwn ni'n ei Wneud)

Bydd Cyngor Caerdydd yn rhoi'r camau canlynol ar waith yn ein hymdrechion i sicrhau nad oes Caethwasiaeth Fodern na Masnachu Pobl yn digwydd.

| Cyf | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Yn unol â chymal 7 o'r Cod Ymarfer, parhau i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal adolygiad rheolaidd o wariant ac yn cynnal asesiad risg. Byddwn yn parhau i:<br>• Nodi unrhyw gyflenwyr risg uchel a monitro ar gyfer tramgwyddau yn erbyn hawliau dynol ac arferion cyflogaeth anfoesegol a fydd yn dod yn eitem safonol ar yr agenda mewn cyfarfodydd ac adolygiadau contract.<br>• Archwilio ffyrdd o weithio gyda'n cyflenwyr Haen 1 i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern i'w atal rhag digwydd drwy broses Asesu Risg ffurfiol: **'Mynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi'**.<br>• Parhau i sicrhau bod gan dimau Rheoli Categori fynediad i astudiaethau achos diweddaraf, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a gwybodaeth berthnasol am arferion camfanteisio posibl i'w defnyddio gan awdurdodau a sefydliadau eraill o fewn prosesau caffael. Nodwyd 'Arwyddion Rhybudd' cyfredol yn y sectorau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r sectorau Solar Ffotofoltäig a bydd rheolwyr categori yn derbyn cymorth i reoli risg yn y contractau hyn ac ar draws contractau perthnasol eraill. |
| 2 | Defnyddio'r Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi – cyflawni Strategaeth Gyfathrebu Caethwasiaeth Fodern i sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi ar draws y Cyngor a chyda sefydliadau partner ac asiantaethau eraill.<br>• Rhannu dysgu, arfer gorau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda Chyfarwyddiaethau perthnasol a'u cyflenwyr, ynghyd â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a cheisio dysgu o'u profiadau.<br>• Parhau i geisio ymgysylltu'n gadarnhaol ag Undebau Llafur i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymhlith eu haelodau. |
| 3 | Byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw ofynion newydd sy'n codi o'r adolygiad o 'God Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi' Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu'n llawn o fewn arferion caffael ac arferion gwaith cysylltiedig ar ôl iddo gael ei ryddhau, gan gynnwys Canllawiau Gwaith Teg sy'n deillio o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a gofynion Nodyn Polisi Caffael 02/03 Swyddfa'r Cabinet (Rheoli Risgiau yn y Gadwyn Gyflenwi - Mynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth). |
| 4 | Adolygu a diweddaru pan fo angen y Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol ac adrodd am gynnydd ar Gynllun Gweithredu. |
| 5 | Parhau â'n hymdrechion i weithio gyda chyflenwyr i dreialu Holiadur Hunanasesu (HHA) Caethwasiaeth Fodern yn y diwydiant adeiladu. |
| 6 | Byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas a chymryd rhan mewn ymgyrchu a mentrau Hawliau Dynol cydweithredol sydd wedi'u hanelu'n benodol at Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl, gan gynnwys mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â 'Diwrnod Atal Caethwasiaeth', gan gyfrannu at Ganllaw Caethwasiaeth Fodern CLlL a Llawlyfr Arfer Gorau'r Sefydliad Masnachu Pobl ar gyfer Cynghorau. Rhoddir ystyriaeth bellach i gymryd rhan mewn mentrau rhagweithiol eraill – gan gefnogi dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern drwy gydweithio â Sefydliadau Anllywodraethol a Gwasanaeth i Mewn i Waith y Cyngor - a galw am well cymorth i ddioddefwyr. |

Blwyddyn Ariannol: 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025

| Cyf | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 7 | Byddwn yn parhau i gynghori a chynorthwyo cyflenwyr sy'n gwneud ymrwymiadau drwy Werth Cymdeithasol i wireddu'r rheini sy'n gysylltiedig â Chaethwasiaeth Fodern. |
| 8 | Byddwn ni'n parhau i gydweithio gydag asiantaethau eraill (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) i sicrhau bod Hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern (rhithwir ac wyneb yn wyneb) ar gael ar sail amlasiantaethol ac ar draws gwahanol gyfarwyddiaethau'r Cyngor ochr yn ochr â'r hyfforddiant Diogelu Corfforaethol ehangach.<br>• Ar y cyd â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, byddwn yn cwmpasu'r adnoddau cenedlaethol sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant a diwydrwydd dyladwy a ddarperir gan Wasanaeth Masnachol y Goron, Swyddogaeth Fasnachol y Llywodraeth ac eraill.<br>• Byddwn yn nodi staff y mae angen hyfforddiant arnynt mewn arferion cyflogi moesegol ac yn ceisio meithrin ymwybyddiaeth / gallu yn enwedig ymysg aelodau o staff rheng flaen sy'n gweithio yn y gymuned.<br>• Byddwn yn cadw cofnodion o bwy sydd wedi cael hyfforddiant ar draws y gwahanol gyfarwyddiaethau ac yn targedu'r rhai lle mae angen gwella cyfraddau cwblhau.<br>• Byddwn yn ymgysylltu â chyfarwyddiaethau lle nad oes gan staff nad ydynt yn staff desg fynediad i'n hyfforddiant ar-lein, i nodi ffyrdd eraill o ddarparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth.<br>• Byddwn yn parhau i wella'r hyfforddiant sydd ar gael i gynnwys rhagor o wybodaeth am y darlun presennol rydym yn ei weld o Gamfanteisio ar Blant (sy'n cyfrif am fwyafrif yr achosion o Gamfanteisio ar Blant yng Nghaerdydd) gan gynnwys datblygiad camfanteisio rhwng cymheiriaid. |
| 9 | Monitro datblygiad y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (DA), sydd bellach â phwysigrwydd cynyddol gyda'i botensial i wella cywirdeb ac effeithlonrwydd wrth ganfod, monitro ac ymdrechion atal lliniaru masnachu pobl. Yn ogystal, mae gan DA y potensial i wella tryloywder a gallu olrhain y gadwyn gyflenwi, sy'n helpu i atal llafur caethweision a masnachu pobl. |
| 10 | Byddwn yn parhau â'n cydweithrediad 'Ardal' actif â Chynghorau Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg i sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i fynd i'r afael â'r risg o Gaethwasiaeth Fodern, a rhennir arfer gorau. |
| 11 | Byddwn yn parhau i sicrhau bod penderfyniadau MAC datganoledig yn cyd-fynd yn agos â'r mecanweithiau diogelu presennol. Byddwn yn gweithio i gynyddu ein dealltwriaeth o anghenion cymorth dioddefwyr a nodwyd ac yn monitro manteision proses gwneud penderfyniadau lleol ar amseroldeb ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir. |
| 12 | Byddwn yn parhau i roi cymorth i Reolwyr Categori o fewn y broses gaffael ar yr asesiad risg ac elfennau diwydrwydd dyladwy rheoli contractau gyda'r nod o nodi cyflenwyr risg uchel. |
| 13 | Byddwn yn archwilio'r cysylltiadau rhwng caethwasiaeth fodern a newid yn yr hinsawdd oherwydd yr angen i drosglwyddo i economi carbon isel a'r effaith ar fregusrwydd pobl sy'n cael eu gorfodi i symud neu chwilio am waith mewn mannau eraill wrth i hinsoddau newidiol wneud bywoliaeth yn anghynaliadwy. |

## 9. Deunyddiau Ategol ac Adnoddau eraill

Yn ogystal â'r dolenni a amlygir drwy gydol y datganiad, mae gan y Swyddfa Gartref amrywiaeth o ddogfennau a deunydd hyrwyddo ar gael - **https://www.gov.uk/government/collections/modern-slavery**

## 10. Cymeradwyo Datganiad

Mae'r datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli Cyngor Caerdydd a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Llofnodwyd gan ..........................................

**Y Cynghorydd Chris Weaver**
yr Aelod Cabinet dros Gyllid,
Moderneiddio a Pherfformiad,
Cyngor Caerdydd

Dyddiad cymeradwyo 1 / 4 / 2024

Llofnodwyd gan ..........................................

**Paul Orders**
Prif Weithredwr
Cyngor Caerdydd

Dyddiad cymeradwyo 1 / 4 / 2024

**'Na' i gaethwasiaeth yng Nghymru**

**Os gwelwch chi rywbeth, rhannwch ef!**

Mewn argyfwng: **999**
Heb fod mewn argyfwng: **101**
Crimestoppers: **0800 555111**
Llinell gymorth caethwasiaeth Modern: **0800 0120 700**

**cymru.gov.uk/gwrthgaethwasiaeth**

**Say no to slavery in Wales**

**If you see it, report it!**

In an emergency: **999**
Routine: **101**
Crimestoppers: **0800 555111**
Modern Slavery Helpline: **0800 0120 700**

**wales.gov.uk/anti-slavery**

WG29678